



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 16.12.2015

Taith y Ffindir Tachwedd 2015

Prin wythnos cyn ein harolygaeth gan Estyn, â'r prysurdeb a pharatoadau yn eu hanterth, fe adawodd deg o aelodau Pwyllgor Eco Ysgol Bro Myrddin y bwrllwm anochel i ymuno â thrydedd taith ein Pwyllgor Eco fel rhan o'n partneriaeth Ewropeaidd Erasmus+. Y tro hwn, oerni ac eira'r Ffindir oedd o'n blaenau ynghyd â'r cyfle i dreulio wythnos yn ein hysgol bartner - Laanila Koulu - yn dysgu mwy am systemau a gweithredoedd ecogyfeillgar y wlad.

Â hithau ymhell o wawrio ar fore Dydd Llun 9^{fed} o Dachwedd, fe adawsom ar y siwrne hirfaeth i Oulu, Y Ffindir - rhyw 800 milltir o brifddinas y wlad, Helsinki. Wedi rhyw bedair awr ar ddeg o deithio, fe gyraeddasom eira'r Ffindir a'r croeso twymgalon oedd yn ein disgwyl yn yr ysgol. Braff oedd cael y cyfle i ddysgu mwy am yr ysgol ac i gymdeithasu yng nghwmni ffrindiau newydd a chyfeillion cyfarwydd y noson honno; ac wedi nifer o dasgau twymo fe gychwynnwyd ar



amcan cyntaf ein taith - trosglwyddo gwybodaeth i ddisgyblion y pum ysgol arall yn ein partneriaeth am sut yr ydym, yma yng Nghymru, yn gwneud defnydd effeithiol o ddŵr. Dyma oedd cychwyn ein hwythnos fyrlymus a bythgofiadwy yng ngwlad yr haul hanner nos. Wythnos a fyddai'n cynnwys ymweliadau di-ri megis gweithfeydd hydro-electrig Isohaara, ffatri pŵer a gwres Toppila, sioe dalent Ysgol Laanila

Koulu a'r uchafbwynt i bob yr un ohonom - ymweld â Chylch yr Arctig. Yn wir, diwrnod hudol a bythgofiadwy oedd hi'r Dydd Mercher hwnnw, wrth i bob yr un ohonom ryfeddu ym mhrydferthwch a disgleirdeb y trwch o eira a oedd o gwmpas y lle, bwydo'r ceirw tymhestlog â'r plu eira'n disgyn o'n cwmpas a sgwrsio â Siôn Corn ei hun gan glywed y newyddion da bod anrhegion ar eu ffordd i bob yr un ohonom unwaith eto eleni.

Mawr oedd y tristwch felly wrth i ni ffarwelio, yng nghanol cawod arall o eira ysgafn, â'n cyfeillion newydd ar y Dydd Gwener hwnnw a gadael tref brydferth Oulu ag anrhegion di-ri o weithdy Siôn Corn yn ein bagiau ac atgofion melys o'n hwythnos drawiadol yn llenwi'r cof. Heb os nac oni bai, fe fu'r wythnos hon yn brofiad anhygoel i bob yr un ohonom. Roedd derbyn cyfle uniongyrchol i brofi system addysg y wlad anhygoel hon yn gyfle arbennig i bob yr un ohonom ac yn sicr fe fydd yr atgofion o fwydo'r ceirw'r diwrnod hwnnw, ynghyd ag ymweld â Chylch yr Arctig, yn aros yn y cof am flynyddoedd maith.

Canlyniadau Nofio Rhanbarth 2015-16

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ei llwyddiant:

[Rhydd Merched Bl 7 ac 8](#)

1af Rachel Fice

2il Megan Tyler

[Rhydd Bechgyn bl 9 a 10](#)

1af Joshua Jones

[Broga Bechgyn Bl 7 ac 8](#)

1af Liam Edwards

2il Tomos Ifan Morgan

[Broga Merched Bl 7 ac 8](#)

1af Taryn Williams

[Broga Merched Bl9 ac 10](#)

3ydd Eva Edwards

[Cefn Bechgyn Bl 7 ac 8](#)

1af Deian Sion Morgan

[Cefn Merched Bl 7 ac 8](#)

1af Nia Haf Conlan

[Cefn Bechgyn Bl 9 a 10](#)

1af Joshua Jones

[Cefn Merched Bl9 ac 10](#)

2il Dyfanwen Ellison

[Cymysg Unigol Bechgyn B7 ac 8](#)

1af Deian Sion

2il Cayo Jones

[Cymysg Unigol Merched B7 ac 8](#)

2il Nia Haf Conlan

[Cyfnewid Rhydd Bechgyn B17 ac 8](#)

1af Ysgol Bro Myrddin

[Cyfnewid Rhydd Merched B17 ac 8](#)

1af Ysgo Bro Myrddin

[Cyfnewid Amrywiol Merched B17 ac 8](#)

1af Ysgol Bro Myrddin

[Cyfnewid Amrywiol Bechgyn B17 ac 8](#)

1af Ysgol Bromyrddin

Canlyniadau Rygbi a pêl droed

[Canlyniadau gemau 9fed o Ragfyr](#)

Rygbi bechgyn BL 8 yn ennill yn erbyn Dyffryn Aman 50 - 0

Rygbi bechgyn BL 10 yn ennill yn erbyn Dyffryn Aman 19-17

[Canlyniadau gemau 15fed o Ragfyr](#)

Pêl-droed B1 8 yn ennill 2 -1 erbyn Ysgol Y Strade. Mae Bro Myrddin, felly, yn bencampwyr Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Rygbi BL 7A yn ennill 35 - 7 yn erbyn Dyffryn Aman

Rygbi BL 7B yn ennill 50 - 0 yn erbyn Dyffryn Aman

Rygbi BL 9 yn ennill 12 - 7 yn erbyn Dyffryn Aman

[Canlyniadau gemau 16eg o Ragfyr](#)

Rygbi Tîm cyntaf yn colli 12-17 yn erbyn Y Strade

Cystadleuaeth Pêl Fasged Hwb Caerfyrddin

Tîm Blwyddyn 9 - 3ydd

Tîm Blwyddyn 11 -Pencampwyr Hwb Caerfyrddin

Pencampwriaeth Cymru 'cyclo-cross'



Longyfarchiadau mawr iawn i Guto Dafydd 9-2 a enillodd gystadleuaeth Pencampwriaeth cyclo cross gyda Tywi Riders a gynhaliwyd ym Mae Colwyn yn ddiweddar. Roedd y cwrs yn mharc Eirias yn un anodd a heriol dros ben gan ystyried y twydd gwael. Cyflwynwyd ei fedal a'i grys iddo gan Dr Llinos Jones mewn gwasanaeth arbennig.

Eisteddfod Castell Newydd Emlyn

Yn eisteddfod Castellnewydd eleni, enillodd Hanna Medi Davies gwpan her prif gystadleuaeth lefaru'r eisteddfod. Da iawn ti Hanna.



Cap Criced i Gymru

Llongyfarchiadau i Owen Bailey 7.4 am ennill ei gap criced. Mae'n chwarae yn y garfan dan 11 oed. Mae eisoes wedi chwarae 15 gem i Gymru yn ystod y flwyddyn.



Cyflwynwyd ei gap yn swyddogol iddo yn Stadiwm Swalec, Caerdydd ar Ddydd Sadwrn 5ed o Ragfyr ac ail gyflwynwyd y cap iddo mewn gwasanaeth arbennig yn yr ysgol. Bydd Owen hefyd yn chwarae criced i Sir Gaerfyrddin y tymor nesaf. Pob lwc i ti yn y dyfodol Owen.

Gwobr Aur i dîm Prydain a Mrs Nerys Blue

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nerys Blue oedd yn cystadlu gyda thîm GB yng nghystadleuaeth raffio Prydain yn Indonesia yn ddiweddar. Enillwyd y wobr Aur gyda'r gystadleuaeth 'head to head' raffio a 3ydd yn y Sprint. Camp wych i'r fim cyfan.



Ymweliad â'r Atom yng Nghaerfyrddin

Yn dilyn ymweliad Mrs Iola Wyn i'r ysgol yn ddiweddar cafodd dosbarth 8-3 gyfle i ymweld â chanolfan newydd yr Atom yng Nghaerfyrddin. Cawsant eu tywys o gwmpas yr Atom gan Mrs Iola Wyn. Rhoddwyd manylion iddynt am y lluoedd ddigwyddiadau, cyfleoedd a gweithgareddau amrywiol sydd gan yr Atom i gynnig i bawb yn y gymuned. Cafodd y disgyblion gyfle i rannu ei syniadau ar gyfer gweithgareddau posib y gellid eu cynnal yn y dyfodol. I gloi cafodd pawb ysgytlâeth hyfryd o'r caffî cyn dychwelyd i'w gwersi. Diolch am y croeso a gobeithio bydd mwy o gyfleoedd i ymweld â'r Atom eto'n fuan.

Stori'r Geni'n fyw

Pnawn dydd Iau ola'r tymor aeth disgyblion flwyddyn 7 gyda'r Adran Addysg Grefyddol i weld drama Stori'r Nadolig yng nghapel Y Bedyddwyr, Heol Awst. Cawsom weld a chlywed Stori'r Nadolig yn fyw gan drigolion Sir Gâr heb anghofio cwrrd â'r asynnod. Hyfryd oedd pnawn Nadoligaidd yn ei wir ystyr i orffen tymor caled o waith.

